

# Mwy nag ailgylchu

## Gwneud yr economi gylchol yn realiti yng Nghymru


Parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo'n bosibl ac osgoi gwastraff er mwyn sicrhau Cymru sy'n wyrddach, yn decach ac yn fwy ffyniannus.

### Ein Strategaeth

- Mae'r strategaeth yn nodi'r prif gamau gweithredu rydym yn eu cynllunio i symud Cymru tuag at economi gylchol.
- Mae pobl Cymru'n ganolog i sicrhau'r newid. Chi wnaeth ein helpu i gyrraedd y nodau a amlinellir i'r dde.
- Wrth symud tuag at economi gylchol, mae'r potensial gennym i wneud y canlynol:
  - Gwneud arbedion o hyd at £2 biliwn ar gyfer economi Cymru
  - Creu 'swyddi gwyrdd'
  - Gwneud Cymru'n fwy cydnorth i'r costau cynyddol a lleihau swm y deunyddiau.
- Rydym yn anelu at sbarduno newid diwylliannol lle y mae gwastraff diangen yn cael ei atal, ac mae deunyddiau a gaiff eu taflu yn cael eu hystyried fel adnoddau yn hytrach na gwastraff.



### Amserlen yr Economi Gylchol



### Agenda Gydgysylltiedig

Mae'r strategaeth hon yn cydfynd â strategaethau a chynlluniau allweddol eraill Llywodraeth Cymru:

- Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol i Gymru
- Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi
- Cyflawni Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Y Polisi Adnoddau Naturiol
- Ffyniant i bawb: Cymru Carbon Isel
- Allwedd
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon
- Cyfleoedd economaidd
- Lleihau allyriadau carbon

# Ein Themâu Craidd

Wedi'u llywio gan bum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol dyma'r chwe thema graidd a fydd yn ein harwain at economi fwy cylchol:




## Adeiladu ar ein cofnod ailgylchu

- Bod yn ddiwastraff erbyn 2050
- Cyfradd ailgylchu o 100% o bob sector gan gynnwys gwastraff cartrefi, a gwastraff o'r byd adeiladu a busnesau etc.
- Defnyddio'r seilwaith i leihau gwastraff bwyd yn llawn yng Nghymru




## Cefnogi atal ac aildefnyddio

- Lleihau swm y gwastraff o gartrefi, a'r sectorau diwydiannol a masnachol
- Hyrwyddo atgyweirio, aildefnyddio ac ailweithgynhyrchu i gymunedau a busnesau



## Llywio arloesi a'r defnydd o ddeunyddiau

- Lleihau swm y deunyddiau rydym yn eu defnyddio a symud oddi wrth ddefnyddio deunyddiau gydag ôl troed carbon uchel
- Cynyddu'r defnydd o gynnwys sydd wedi'i ailgylchu a'i ailweithgynhyrchu
- Cefnogi arloesedd mewn meysydd megis bioblastigau



## Buddsoddi mewn seilwaith

- Seilwaith rheoli gwastraff ychwanegol i sicrhau bod gymaint o ddychweliadau â phosibl o ddeunyddiau a gasglwyd
- Seilwaith i gefnogi aildefnyddio, atgyweirio ac ailweithgynhyrchu
- Datgarboneiddio'r seilwaith bresennol



## Galluogi cymunedau a busnesau

- Dod â chymunedau at ei gilydd i ddatblygu mentrau i hyrwyddo aildefnyddio ac atgyweirio
- Cefnogi busnesau i arbed a gwneud arian, a bod yn gydnerth drwy ddefnyddio cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol



## Defnyddio ysgogiadau'r llywodraeth

- Adeiladu ar gynlluniau megis Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gyflawni prosiectau arloesol
- Defnyddio cyllid y Llywodraeth, deddfwriaeth, trethi a phrynu i lywio Cymru tuag at economi gylchol



Mae'r camau hyn yn cydweddu â phob un o'n themâu creiddiol

## Y prif gamau gweithredu

1. Arwain y byd o ran ailgylchu
2. Blaenoriaethu caffael pren a chynnwys sydd wedi'i ailweithgynhyrchu a'i ailgylchu
3. Gwneud defnydd mwy effeithlon o'n bwyd
4. Buddsoddi mewn technoleg lân er mwyn casglu deunyddiau
5. Galluogi cymunedau i weithredu ar y cyd
6. Creu cyfleoedd i fusnesau
7. Cael gwared ar blasting untro yn raddol
8. Ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am ein gwastraff.